**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

3 Hydref 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru**

Gweler isod yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Codwyd y mater hwn o dan Argymhelliad 20 yn Adroddiad Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Mae'r argymhelliad gwreiddiol a'n hymateb gwreiddiol ninnau i'w gweld isod.

**Argymhelliad 20:**
Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ynghyd â syniad o ran pryd y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi.

**Derbyn:**
Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r angen iddo gael ei ddiweddaru. Er hynny, mae'n ddogfen hir a chymhleth lle mae llawer o'r canllawiau sylfaenol wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wrthi'n ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a byddwn yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**<u>Yr wybodaeth ddiweddaraf – Gorffennaf 2024</u>**
Yn ddiweddar iawn, rydym wedi dod o hyd i adnoddau i helpu'r tîm i ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r darn hwn o waith yn ei gamau cynllunio cychwynnol a byddwn yn darparu amserlen fanylach i'r Pwyllgor ar gyfer diweddaru'r ddogfen ym mis Medi 2024.

**<u>Yr wybodaeth ddiweddaraf – Medi 2024</u>**
O ystyried y goblygiadau o ran adnoddau a nodwyd gennym yn flaenorol, rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid newydd i nodi'r elfennau hanfodol hynny o fewn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru y mae angen eu diweddaru ar unwaith. Dyma'r elfennau y byddwn yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Byddwn yn cyhoeddi penodau wrth inni eu diweddaru. O dan amserlen ychydig yn arafach, byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfen gyfan. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.

Yn gywir,



**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en